# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Parcyrhun

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a diogel sy’n gofalu’n hynod dda am ei disgyblion. Mae staff bob amser yn parchu disgyblion ac yn eu trin yn deg. Mae arweinwyr yn arwain yr ysgol yn effeithiol a phwrpasol, sy’n gwneud yn sicr bod bob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal yn holl weithgareddau’r ysgol dros amser. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Maent yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd mae angen iddi eu gwella yn dda, ac yn cynllunio’n effeithiol i sicrhau gwelliant dros amser.

Mae’r adeilad yn lliwgar, ysgogol a difyr i ddisgyblion, sy’n eu hannog i fwynhau dysgu. Mae athrawon ac oedolion eraill, ar y cyfan, yn addysgu disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, mathemategol, cymhwysedd digidol a’u medrau ehangach. Er bod gan y rhan fwyaf fedrau mathemategol cadarn, nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfle i’w hymarfer yn gyson mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae’r cwricwlwm yn bodloni gofynion heddiw yn dda, ac yn canolbwyntio’n briodol ar addysgu disgyblion am eu hardal leol, Cymru a’r byd. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn effeithiol iawn ac yn eu paratoi’n dda i fedru dysgu heb gael gormod o gymorth gan oedolion. Mae athrawon, ar y cyfan, yn gwybod beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu a pham. Er hyn, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio digon ar ba fedrau maent am iddynt eu dysgu, gan roi gormod o sylw i’r cynnwys. Mae hyn yn golygu nad oes bob amser ddigon o ddyfnder yn y dysgu ac nid yw tasgau’n  adeiladu digon ar waith blaenorol.

Mae staff yn annog disgyblion i fod yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn ymdrechu’n dda yn eu tasgau ac yn cydweithio’n llwyddiannus i ddatrys unrhyw broblemau maen nhw’n eu cael gyda’r gwaith. Mae’r holl ddisgyblion, dros amser, yn cael cyfleoedd i ddod yn aelodau o ystod o bwyllgorau llais y disgybl a gwneud penderfyniadau ar sut i wella'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mireinio gweithdrefnau cynllunio i sicrhau bod dyfnder yn y dysgu, a bod yr amcanion yn glir ac yn adeiladu'n drefnus ar rai blaenorol

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2025